

28. Cynlluniau Datblygu Ysgolion

1. Mae Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 (“y Rheoliadau”) yn gymwys i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd ysgolion a gynhelir). Mae'r Rheoliadau'n gosod dyletswydd ar y corff llywodraethu i lunio cynllun datblygu'r ysgol er mwyn ei gynorthwyo i arfer ei gyfrifoldeb am hybu safonau uchel o gyflawniad addysgol. Er y corff llywodraethu sy'n bennaf gyfrifol am y cynllun datblygu, yn y bôn, y pennaeth fydd yn gweithio gyda'r staff a'r corff llywodraethu i gynhyrchu'r cynllun, a'r pennaeth fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau a'r strategaethau angenrheidiol sydd eu hangen i wella'r ysgol.

Gellir gweld y Rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig ar wefan Dysgu Cymru:

<http://learning.gov.wales/resources/collections/school-development-plans?skip=1&lang=cy>

Y cylch cynllunio ar gyfer datblygu ysgolion

2. O 1 Medi 2015 ymlaen bu'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir gael cynllun datblygu tair blynedd ar waith. Cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella yw'r cynllun datblygu.

Mae'r Rheoliadau'n gosod dyletswydd ar y corff llywodraethu i wneud y canlynol:

- sicrhau mai tair blynedd yw hyd cynllun datblygu cyntaf yr ysgol, a'i fod wedi dechrau erbyn 1 Medi 2015 fan bellaf;
- pennu manylion amseru hyd y cyfnodau ar gyfer cynlluniau datblygu dilynol yr ysgol. Golyga hynny bod modd i'r ysgolion bennu hyd cylch yr hunanwerthusiad a'r cynllunio strategol sy'n fwyaf cyfleus iddynt; a
- sicrhau mai cynllun treigl tair blynedd yw'r cynllun datblygu, a bod y flwyddyn gyntaf yn cynnwys blaenoriaethau, targedau a strategaethau manwl, a bod yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn yn nodi'r blaenoriaethau a'r targedau lefel uchel.

3. Wrth baratoi'r cynllun, bydd y corff llywodraethu'n ystyried gwybodaeth gymharol yr ysgol, canlyniadau cyrhaeddiad ac unrhyw ddata eraill o ran perfformiad disgyblion yr ysgol. Rhaid i'r cynllun hefyd ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol.

Cynnwys cynllun datblygu'r ysgol

4. Bydd y cynllun yn hyrwyddo safonau uchel ar gyfer cyflawniad addysgol, a rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod y cynllun datblygu yn cynnwys y canlynol (o leiaf):

- blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol;
- datganiad cryno'n amlinellu targedau'r ysgol ar gyfer gwella, a'r deilliannau a ddisgwylir ynghyd â'r strategaeth i gyflawni'r targedau hynny;
- gwybodaeth ar sut y bydd yr ysgol yn bwriadu ymdrin â datblygiad proffesiynol staff yr ysgol, er mwyn cyflawni'r targedau i wella'r ysgol yn y flwyddyn gyfredol;
- manylion ar sut y bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r disgyblion, eu teuluoedd/gofalwyr a'r gymuned ehangach (er enghraifft trigolion lleol, ysgolion, busnesau a sefydliadau eraill) i gyflawni'r targedau ar gyfer gwella'r ysgol yn y flwyddyn gyfredol;
- manylion ar sut y gwneir y defnydd gorau o staff ac adnoddau cyfredol yr ysgol (gan gynnwys cyllid, offer, adeiladau a thir yr ysgol) er mwyn cyflawni'r targedau i wella'r ysgol yn y flwyddyn ysgol gyfredol;
- manylion ar sut y bydd staff ac adnoddau'r ysgol, a ragwelir y bydd ar gael, yn cyflawni'r targedau i wella'r ysgol dros y ddwy flynedd nesaf; a
- datganiad cryno'n amlinellu'r graddau yr oedd y targedau ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol wedi'u cyflawni. Os nad oeddent wedi'u cyflawni'n llwyr, byddai angen esboniad cryno'n amlinellu'r rhesymau dros y methiant hwnnw. Ni ddylai'r esboniad hwnnw gynnwys unrhyw gyfeiriad at aelodau unigol o'r staff.

Y broses cynllunio ac adolygu ar gyfer datblygu ysgolion

5. Wrth baratoi neu adolygu'r cynllun rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r canlynol:

- pennaeth yr ysgol;
- y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol;
- rhieni'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru;
- staff yr ysgol;
- y cyfryw bobl eraill ag sy'n briodol ym marn y corff llywodraethu.

Rhaid i'r corff llywodraethu fonitro ac adolygu'r cynnydd a wneir gan yr ysgol yn ystod pob flwyddyn ysgol yn erbyn y cynllun datblygu. Rhaid iddo hefyd adolygu'r cynllun datblygu o leiaf unwaith y flwyddyn (erbyn y dyddiad yr oedd y cynllun datblygu wedi'i ddatblygu neu ei adolygu ddiwethaf fan bellaf), ac yn dilyn arolygiad gan Estyn.

Cyhoeddi cynllun datblygu'r ysgol

6. Fel bod yr ysgol gyfan yn ymwybodol o gynlluniau gwella'r ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod pob aelod o gorff llywodraethu a staff yr ysgol yn cael copi o'r cynllun datblygu.

7. Rhaid i'r corff llywodraeth hefyd sicrhau bod y cynllun ar gael i rieni/gofalwyr ac i aelodau o'r gymuned ehangach drwy baratoi crynodeb ar gyfer Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr yr Ysgol. Bydd y crynodeb yn cynnwys blaenoriaethau, targedau a chymau gweithredu lefel uchel ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

Cynlluniau datblygu ysgolion Rhif y ddogfen ganllawiau: 155/2014
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2014